



Fforwm Rheoli Tir Cymru

Yn bresennol: Zoe Henderson (Aelod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru)
Hedd Pugh (NFU Cymru)
Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru)
Tudur Parry (Undeb Amaethwyr Cymru)
Bernard Griffiths (Swyddog Polisi Defnydd Tir Undeb Amaethwyr Cymru)
Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)
Marc Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Martyn Evans (Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru)
Helen Haider (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Ymddiheuriadau: Ruth Jenkins (Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol), Ceri Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru), Anthony Geddes (Confor), Tim Kirk (Confor), Sian Thomas (Cymdeithas Ffermwyr Ifanc), Bob Vaughan (Rheolwr Ffermio Tir a Rheoli Coedwigoedd yn Gynaliadwy, Cyfoeth Naturiol Cymru), Chris Blake, (Aelod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru), Russell De'Ath (Cyfoeth Naturiol Cymru), Nia Lloyd (Cymdeithas Ffermwyr Ifanc), Michelle Van-Velzen (Cyfoeth Naturiol Cymru).

**Dyddiad a
lleoliad y
cyfarfod:**

10 Mai 2019 – Swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion, Aberystwyth.

Ysgrifenyddiaeth: Helen Haider (Cydgysylltydd Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru)
Marc Williams (Cydgysylltydd Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru)

1. Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd Zoe Henderson Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru, i'r fforwm. Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Ffermwyr Ifanc Cymru ac ni allai cynrychiolwyr o Confor fynychu chwaith.

2. Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi

Ni chafodd unrhyw ddiwygiadau eu gwneud i gofnodion y cyfarfod diwethaf ar 6 Chwefror ac mae'r rhain bellach wedi'u rhoi ar dudalen we Fforwm Rheoli Tir Cymru ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

O ran Pwynt Gweithredu 7 o'r cyfarfod diwethaf ar 6 Chwefror (*Dosbarthu manylion cyswllt rheolwyr coedwigaeth allweddol CNC ymhlith holl aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru*), darparwyd enwau'r rheolwyr coedwigaeth i aelodau ar lafar, a bydd rhestr gysylltiadau'n cael ei dosbarthu.

O ran Pwynt Gweithredu 8 o'r cyfarfod diwethaf ar 6 Chwefror, nid yw Fforwm Rheoli Dŵr Cymru wedi cadarnhau eto pwy fydd yn darparu diweddariadau i Fforwm Rheoli Tir Cymru.

Gan nad oedd cynrychiolydd o'r sector coedwigaeth yn gallu mynychu'r cyfarfod, nid oedd modd darparu diweddariadau ar gynnydd o ran Pwyntiau Gweithredu 12-16 o'r cyfarfod diwethaf ar 6 Chwefror.

Pwynt Gweithredu 1: Darparu diweddariadau o ran y pwyntiau gweithredu sydd ar ôl o gyfarfod diwethaf Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 6 Chwefror (Pawb)

3. Cylch gorchwyl ac aelodaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru.

Cafodd dogfen ddrafft o'r cylch gorchwyl ei dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Ni chodwyd unrhyw faterion o ran cynnwys y cylch gorchwyl, a bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyhoeddi ar dudalen we Fforwm Rheoli Tir Cymru.

Cyn ei ymddeoliad, derbyniodd Brian Pawson gais gan Emyr Williams, Parc Cenedlaethol Eryri, i ymuno â Fforwm Rheoli Tir Cymru. Bu trafodaeth ynghylch y cais, a ddylid ehangu aelodaeth y fforwm ac a oedd y Parc Cenedlaethol yn bodloni amodau'r cylch gorchwyl. Cafodd Fforwm Rheoli Tir Cymru ei sefydlu'n wreiddiol i Cyfoeth Naturiol Cymru rannu gwybodaeth ag aelodau a oedd yn cynrychioli ffermwyr a pherchnogion tir. Mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cynrychioli aelodau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli tir fel y nodir yn nogfen y cylch gorchwyl. Mae ceisiadau blaenorol gan sefydliadau sy'n gweithio gyda ffermwyr wedi'u gwrthod ar sail y ffaith nad ydynt yn cynrychioli ffermwyr. Cytunwyd y dylai manylion y cais gan Emyr Williams gael eu dosbarthu i'r aelodau ac y byddai penderfyniad terfynol ynghylch eu haelodaeth yn cael ei wneud yng nghyfarfod Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Medi. Yn y cyfamser, bydd ymateb dros dro yn cael ei anfon at Emyr Williams.

Cafwyd trafodaeth ynghylch buddion cael cynrychiolydd o adran rheoli tir Llywodraeth Cymru i fynychu un o gyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol, gan ragweld ymgynghoriad pellgyrhaeddol Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf yn dilyn yr ymgynghoriad 'Brexit a'n Tir'.

Pwynt Gweithredu 2: Drafftio ymateb dros dro i Emyr Williams, Parc Cenedlaethol Eryri, ynghylch ei gais i ymuno â Fforwm Rheoli Tir Cymru (Zoe Henderson/Ruth Jenkins, Cyfoeth Naturiol Cymru)

Pwynt Gweithredu 3: Dosbarthu manylion cais Emyr Williams, Parc Cenedlaethol Eryri, i aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru (Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)

Pwynt Gweithredu 4: Sicrhau bod aelodaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru (Helen Haider a Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)

Pwynt Gweithredu 5: Nodi a gwahodd uwch-gynrychiolydd rheoli tir Llywodraeth Cymru i fynychu cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru er mwyn nodi'r sefyllfa gyffredinol o ran y polisi, gan gynnwys ymgynghoriad rheoli tir mis Gorffennaf (Bob Vaughan, Cyfoeth Naturiol Cymru)

4. Diweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru

a) Cynllunio'r Sefydliad

Bydd strwythur newydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei roi ar waith ar 1 Gorffennaf 2019. Bydd y mwyafrif o'r oddeutu 1,800 o staff sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu rolau newydd erbyn mis Gorffennaf. Bwriad yr ad-drefnu yw alinio Cyfoeth Naturiol Cymru'n well i'r ddeddfwriaeth newydd (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru)) a ddaeth i rym ar ôl i Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei sefydlu, ennyn cydnerthed yn erbyn heriau cyllido'r dyfodol ac integreiddio. Mae newidiadau sylweddol i feysydd Gweithrediadau a Rheoli Tir y busnes, a rhai newidiadau i rôl yr arweinydd tîm a swyddi uwch ym maes Rheoli Coetiroedd. Mae dyfnder da o arbenigedd technegol wedi'i gadw ym maes rheoli tir. Bydd Sasha Wyn-Davies, a arferai weithio i Horizon, yn ymuno â Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Gorffennaf fel Pennaeth y Tîm Masnachol. Mae Pennaeth Stiwardiaeth Tir yn cael ei recriwtio ar hyn o bryd, a hwn fydd pumed Pennaeth Polisi Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gyfrifol am ddaliadau tir, coedwigoedd ac asedau llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Pwysleisiwyd nad bwriad y gwaith ad-drefnu gan Cyfoeth Naturiol Cymru oedd colli staff, a bydd y broses yn galluogi llawer o staff i ddatblygu eu gyrfaoedd. Cafodd y fantais o wybod pwy yw'r staff o fewn timau technegol ei chrybwyll. Mae manylion cyffredinol y staff technegol hyn ar gael, ond cytunwyd y byddai strwythur llawn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru a manylion yn cael eu dosbarthu i aelodau cyn gynted ag y byddant wedi'u cadarnhau.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y materion yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u hystyried i sicrhau bod pynciau ac arbenigedd yn gysylltiedig ar draws y sefydliad er mwyn osgoi cael staff yn gweithio mewn seilios. Eglurodd Martyn Evans na fydd y gwaith ad-drefnu'n cyflawni hyn ar ei ben ei hun, a bod camau'n cael eu cymryd i ddatblygu cysylltiadau ar draws y busnes a bod modelau o fusnesau eraill (e.e. SEPA) wedi'u hystyried er mwyn edrych ar bwyntiau dysgu. Eglurodd Martyn Evans mai rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli a chyfrannu at y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, nid ei reoleiddio yn unig, a byddai angen gweithio'n gydweithredol i wneud hyn. Cafwyd ymholiad ynghylch a oedd cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiogel. Cadarnhawyd nad yw cyllidebau Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu diogelu yn ystod cyfnodau o galedi, ond bod arwyddion cadarnhaol y byddai'r gyllideb yn cael ei hystyried yn gadarnhaol gan Lywodraeth Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n datblygu incwm masnachol hefyd i wrthbwysu pwysau'r cymorth grant i'w ailfuddsoddi yn y gwaith hwn.

Pwynt Gweithredu 6: Dosbarthu manylion haenau staff Cyfoeth Naturiol Cymru sydd bellach mewn swydd i aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru (Martyn Evans)

Pwynt Gweithredu 7: Diweddarau aelodau ar strwythur llawn Cyfoeth Naturiol Cymru yng nghyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru (Bob Vaughan/Martyn Evans)

b) Diweddariad polisi

Codwyd cwestiwn ynghylch a yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymhél â'r ymgynghoriad ar egwyddorion a llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit yr UE. Mae'r ymgynghoriad yn ystyried a ddylid goruchwylio Cyfoeth Naturiol Cymru, a chafwyd trafodaeth ynghylch a ddylid cael corff annibynnol i sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu'n briodol.

Pwynt Gweithredu 8: Cadarnhau a fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb i'r ymgynghoriad ar egwyddorion a llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit yr UE (Bob Vaughan).

Pwynt Gweithredu 9: Os yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb i'r ymgynghoriad ar egwyddorion a llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit yr UE, rhannu'r ymateb gyda'r aelodau (Ruth Jenkins/Bob Vaughan)

c) Diweddariad dŵr

Plastigion

Cafwyd trafodaeth ynghylch plastigion. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn recriwtio aelod staff plastigion/gwastraff o'r môr, a bydd gofyn iddo fynychu cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Dŵr Cymru. Mynegodd Tudur Parry bryder ynghylch y ffaith na ellir ailgylchu plastigion ffermydd ar hyn o bryd a'u bod yn mynd i safleoedd tirlenwi, sy'n costio rhwng £80-£110 y dunnell. Nid oes galw am blastigion fferm mwyach gan Tsieina a Malaysia. Mae gweithfeydd yn y DU sy'n gallu ailgylchu plastigion fferm, ond ni allant ymdopi â'r swm sy'n cael ei greu. Pwysleisiwyd fod angen rhoi pwysau ar gyflenwyr i leihau swm y deunydd pacio plastig.

Cynlluniau Cwmni Dŵr PR19

Bob pum mlynedd, mae Ofwat (y rheoleiddiwr economaidd) yn gosod terfynau pris sy'n galluogi cwmnïau dŵr i gyllido'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau i gwsmeriaid, yn unol â safonau a gofynion amgylcheddol perthnasol. Bydd adolygiad prisiau cyfredol Ofwat (PR19) yn dod i ben yn 2019.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Ofwat, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy drwy gydol proses y PR19 er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yn cael sylw.

Roedd Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy wedi cyflwyno eu cynlluniau busnes PR19 i Ofwat ym mis Medi. Mae'r ddau gwmni'n bwriadu gwneud buddsoddiadau sylweddol i fynd i'r afael â'u heffeithiau amgylcheddol yn ystod 2020-24, gan gynnwys gwelliannau i waith trin carthion er mwyn bodloni gofynion ansawdd dŵr Natura 2000/y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ymchwiliadau a mesurau i leihau gollyngiadau o orlifiannau carthffosydd cyfunol, gwelliannau i'r llwybr pysgod, ymchwiliadau i ddeall peryglon rhywogaethau estron goresgynnol yn well, a newidiadau i lifau cronfeydd dŵr i lawr yr afon. Mae cynllun Dŵr

Cymru yn cynnwys ymrwymiad i bedwar cynllun peilot dalgylch (Afan, Teifi, Clwyd ac Alyn), a fydd yn archwilio datrysiadau arloesol a chydweithredol.

Mae'r dull trosfwaol o weithredu trydydd gylchred y cynlluniau basn afon wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad Gweithio gyda'n Gilydd, a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2018. Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ofyn am adborth ar y rhaglen waith, yr amserlen a'r broses ar gyfer gweithio gyda'n gilydd. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad Materion Rheoli Dŵr Sylweddol yn ddiweddarach y flwyddyn hon.

Bydd yr ymgynghoriad Materion Rheoli Dŵr Sylweddol yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2019, a bydd yn ymgynghoriad chwe mis o hyd. Trafodwyd y dull o weithredu hwn yng nghyfarfod Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ym mis Ebrill, a bydd copi drafft o'r ddogfen yn cael ei rannu gyda Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yn ddiweddarach ym mis Mai.

Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu ei ddull o dargedu trydedd gylchred y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ac mae'n edrych ar wneud hyn ar lefel dalgylch/is-dalgylch ac integreiddio â phroses y Datganiad Ardal.

Ar gyfer cylchred 3, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd i geisio blaenoriaethu dalgylchoedd mewn modd sy'n rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac sy'n seiliedig ar le, a fydd hefyd yn cyflawni canlyniadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd, mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru symud i ffwrdd o fodel a arweinir gan gydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i ganlyniadau dalgylch mwy integredig a chynaliadwy. Byddai hyn yn cyflwyno buddion i gynefinoedd/rhywogaethau dŵr a'r rhai hynny sy'n dibynnu ar ddŵr, a byddai'n alinio â buddion llesiant a chyfranogiad cyhoeddus yn yr hirdymor.

Pwynt gweithredu 10: Dosbarthu diweddariad ysgrifenedig Fforwm Rheoli Dŵr Cymru i aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru (Helen Haider a Marc Williams)

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu'r cynnwys ar gyfer yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a fydd yn cael ei lunio eleni, a bydd adroddiad dros dro yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2019 gyda'r nod o'i gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2020. Mae gweminar wedi'i threfnu ar gyfer 20 Mai i aelodau ymgysylltu â'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, ac mae'r manylion i gymryd rhan yn hon wedi'u dosbarthu i'r grŵp.

Amonia/Amaethyddiaeth ddwys

Agorodd Zoe Henderson yr eitem hon drwy egluro fod amaethyddiaeth ddwys yn cael ei ystyried yn rhywbeth negyddol ar brydiau. Mae unedau dwys yn cael eu rheoleiddio'n llym ac nid ydynt bob amser yn gyfrifol am effeithiau ar yr amgylchedd; weithiau, unedau llai o faint na chânt eu rheoleiddio sy'n gallu achosi problemau o ran llygredd (naill ai unedau unigol neu gyfuniad ohonynt).

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn paratoi ac yn cyhoeddi haen/map GIS o goetiroedd hynafol sy'n sensitif i amonia, ar sail cofnodion diweddar o gennau a bryoffytau sensitif. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cyhoeddi cynllun gweithredu amonia y flwyddyn hon a chanllawiau ar gyfer datblygiadau amaethyddiaeth ddwys. Gofynnodd aelodau am ragor o wybodaeth ynghylch y cynllun gweithredu a'r canllawiau ac a ydynt yn cyd-fynd â gwaith arall perthnasol sy'n ymwneud ag amonia yn Llywodraeth Cymru, fel y Cod Ymarfer Amaethyddol Da (CoGAP): Lleihau Allyriadau Amonia.

Mae gwaith prosiect yn cael ei wneud yn Cyfoeth Naturiol Cymru i sefydlu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y llygredd a ddaw yn sgil allyriadau amonia wrth ffermio da byw yng Nghymru. Mae model wedi'i ddatblygu i ddangos effeithiau gosod mesurau lleihau ar fathau a meintiau amrywiol o ffermydd. Nid yw'r adroddiad terfynol ar y gwaith prosiect hwn ar gael eto, ond bydd yn cael ei ddsbarthu i'r grŵp cyn gynted â phosibl.

Pwynt Gweithredu 11: Darparu manylion ychwanegol i aelodau ynghylch y cynllun gweithredu amonia/canllawiau ar gyfer datblygiadau amaethyddiaeth ddwys (Simon Bareham, Cyfoeth Naturiol Cymru)

Pwynt Gweithredu 12: Sefydlu'r rhyngweithiad rhwng y gwaith prosiect ar amaethyddiaeth ddwys a gwaith arall ar amonia a wneir gan Lywodraeth Cymru (Alison Soper, Cyfoeth Naturiol Cymru)

Pwynt Gweithredu 13: Rhannu adroddiadau amaethyddiaeth ddwys gydag aelodau pan fyddant ar gael (Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)

Mynegodd Dennis Matheson bryderon y byddai canlyniadau'r gwaith prosiect yn arwain at fwy o reoliadau i ffermwyr heb ganolbwyntio ar y nwyddau cyhoeddus y mae ffermwyr yn eu darparu. Amlygodd Zoe Henderson bwysigrwydd defnyddio tystiolaeth i lywio penderfyniadau.

Afancod

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ar fin cwblhau'r adroddiad arolygu ar afancod Afon Gwy. Mae adroddiadau wedi bod ar y newyddion yn ddiweddar am afancod yn derbyn diogelwch cyfreithiol llawn yn yr Alban. Nid yw hyn yn gymwys yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn i Lywodraeth Cymru egluro ei bwriad o ran diogelu afancod yng Nghymru. Nid oes unrhyw newid mewn statws afancod yng Nghymru ar hyn o bryd, hyd oni fydd Llywodraeth Cymru/Defra yn penderfynu eu hychwanegu i'r Rheoliadau Cynefinoedd. Nododd NFU Cymru y dylai'r adroddiad wneud mwy na nodi a oes afancod yn bresennol; dylai nodi'r camau nesaf, er enghraifft, o ran bioddiogelwch. Gwnaeth NFU Cymru hefyd bwysleisio, pe bai ystyriaeth i gyflwyno eryrod, bod ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal o ran cyflwyno eryrod, ac awgrymwyd cyfnod ymgynghori lleiaf o chwe wythnos.

Datganiadau Ardal

Dosbarthwyd drafft o Gynnig Ymgysylltu Cenedlaethol Fforwm Rheoli Tir Cymru i aelodau cyn y cyfarfod. Mae chwe mis o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys diddordeb aelodau mewn bod yn bartner cyflenwi ar gyfer datganiadau ardal. Cynhelir sesiynau

ymgysylltu ynghylch y datganiadau ar lefel genedlaethol ac ardal leol. Y nod cyffredinol o ymgysylltu â Fforwm Rheoli Tir Cymru fydd i wneud y canlynol:

- Cyflawni gweledigaeth a rennir gyda chefnogaeth a chyfraniad
- Ymhél â pholisi adnoddau naturiol a themâu sy'n dod i'r amlwg
- Helpu i nodi cyfleoedd gofodol i gyflawni buddion lluosog
- Helpu i lywio trafodaethau lleol a gwaith cyflawni cydweithredol
- Helpu i lywio'r Adroddiad nesaf ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r polisi cenedlaethol nesaf

Amlygodd NFU Cymru fod datganiadau ardal yn gysyniad damcaniaethol i'w aelodau ac y dylai materion eraill ar y gorwel, fel dyfodol y cynllun rheoli tir, gael eu hystyried. Nodwyd pa mor bwysig oedd hi i ffermwyr weld buddion ymhél â datganiadau ardal. Cytunodd aelodau y byddai defnyddio trydydd parti (fel Cyswllt Ffermio) i ymgysylltu ar lefel leol o fudd.

Trafodwyd sut bydd datganiadau ardal yn rhyngweithio â chynllun rheoli tir y dyfodol. Nodwyd y dylid mynd ati i ymgysylltu'n lleol â ffermwyr mewn modd uniongyrchol sydd wedi'i addasu a'i deilwra. Trafododd aelodau bwysigrwydd sicrhau bod y sector ffermio'n gyfarwydd â datganiadau ardal. Cytunwyd y byddai gwaith cyfathrebu'n cael ei wneud i ddatblygu naratif a fydd yn annog aelodau i ymgysylltu ac i archwilio'r potensial i drefnu digwyddiadau lleol, efallai eto, gan ddefnyddio trydydd parti fel Cyswllt Ffermio. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cysylltu ag aelodau ynghylch y posibilrwydd o sefydlu gweithgor bychan ar ddatganiadau ardal gyda phenaethiaid lle eraill Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd.

Pwynt Gweithredu 14: Drafftio naratif addas ar ddiben datganiadau ardal er mwyn annog aelodau i ymhél â'r broses (Russell De'Ath, Cyfoeth Naturiol Cymru/Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru/Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru)

Pwynt Gweithredu 15: Edrych ar y potensial i drefnu digwyddiadau lleol i ffermwyr ymhél â datganiadau ardal fel rhan o'r broses ymgysylltu genedlaethol (Rheolwyr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru/Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru/Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru)

Pwynt Gweithredu 16: Dosbarthu manylion cyfarfodydd datganiad ardal sectorau i aelodau (Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru)

Pwynt Gweithredu 17: Drafftio cynllun/siart sefydliadol o sut mae'r holl grwpiau ymgysylltu datganiad ardal yn cysylltu â'i gilydd (Russell De'Ath, Cyfoeth Naturiol Cymru)

5. Trwyddedau cyffredinol

Yn dilyn her gyfreithiol, mae Natural England wedi adolygu ei safle ar drwyddedau cyffredinol. Mae trwyddedau cyffredinol ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu sail gyfreithiol i bobl gyflawni amrediad o weithgareddau sy'n ymwneud â bywyd gwylt yn gyfreithiol. Mae trwyddedau cyffredinol ar gael i ganiatáu lladd adar gwylt penodol mewn sefyllfaoedd penodol er mwyn eu rheoli, er enghraifft, i amddiffyn diogelwch ac iechyd cyhoeddus, diogelu cnydau a da byw neu i warchod rhywogaethau eraill. Ar ôl cael y trwyddedau hyn, gellir dim ond lladd adar gwylt fel ateb olaf pan fydd pob dull arall wedi methu â datrys y broblem. Nid

oes angen i unigolion wneud cais am drwyddedau cyffredinol, ond mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gydymffurfio â'u telerau ac amodau.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu canlyniad y broses yn Lloegr ac yn ymgynghori â'i gynghorwyr cyfreithiol. Os bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu ei ddull gweithredu, bydd yn cydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod dull gweithredu effeithiol, cymesur a chyfreithiol ar waith. Mae cyfarfod bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 22 Mai i benderfynu sut i fynd i'r afael â'r mater hwn.

6. Adborth gan is-grŵp llygredd amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru

Cytunwyd y byddai diweddariadau ysgrifenedig gan is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael eu dosbarthu i aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru er mwyn osgoi dyblygu'r gwaith o rannu gwybodaeth.

Pwynt Gweithredu 18: Dosbarthu diweddariadau ysgrifenedig gan is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i aelodau (Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)

7. Rhaglen Creu Coetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru

Gan nad oedd cynrychiolwyr coedwigaeth yn gallu mynychu'r cyfarfod, cytunwyd y byddai diweddariad ysgrifenedig yn cael ei ddosbarthu i aelodau.

Pwynt Gweithredu 19: Dosbarthu diweddariad coetiroedd i aelodau (Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)

8. Diweddariad gan y Fforymau Dŵr a Physgodfeydd

Fforwm Pysgodfeydd

Cytunwyd ar y cylch gorchwyl ar gyfer y Fforwm Pysgodfeydd, a thrafodwyd yr aelodaeth. Bydd Dŵr Cymru yn cael eu gwahodd i ymuno, ac mae'r Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt yn awyddus i ymuno â'r grŵp. Bydd cynrychiolydd amaethyddol yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfod nesaf y Fforwm Pysgodfeydd.

Amlygodd yr aelodau bwysigrwydd osgoi dyblygu o fewn gwahanol fforymau, ac yn benodol, y potensial i ymdrin â materion fel llygredd amaethyddol, sydd eisoes yn cael ei drafod drwy is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol. Nodwyd y byddai'n fuddiol amlinellu cylch gwaith Fforwm Rheoli Tir Cymru/Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i'r fforymau eraill.

Pwynt Gweithredu 20: Rhoi adborth i fforymau eraill (Pysgodfeydd/Dŵr) ar gylch gwaith a gwaith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru er mwyn osgoi dyblygu (Zoe Henderson)

Pwynt Gweithredu 21: Mynychu cyfarfod nesaf y Fforwm Pysgodfeydd i ddisgrifio'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Fforwm Rheoli Tir Cymru/Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (Zoe Henderson)

Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

Cyfarfu Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ar 9 Ebrill, a chanolbwyntiodd y cyfarfod ar gylch gorchwyl y grŵp, a chafodd hwn ei gytuno. Mae aelodau'n awyddus i beidio â dyblygu rolau ar draws y fforymau amrywiol. O fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, mae cydlynwyr y fforymau yn gweithio ar sicrhau bod y grwpiau'n rhannu allbynnau a dulliau. Bydd cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ar 4 Gorffennaf.

9. Edrych i'r dyfodol

Bwriedir cyhoeddi'r ddogfen ddilynol i'r Ymgynghoriad 'Brexit a'n Tir' ym mis Gorffennaf.

Cafwyd trafodaeth ynghylch prosiect Ilaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, a rhoddwyd adborth o ran y swyddogion. Bydd diweddariad llawn yn cael ei roi ar y prosiect yng nghyfarfod nesaf is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 23 Mai.

10. Unrhyw fater arall

Pwynt Gweithredu 22: Dosbarthu manylion i aelodau ynghylch plannu er cof am Martin Bishop (Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru)